Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws
# Heol Abertawe
# Trebannws
# SA8 4BL

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 22/08/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws ym mhentref Trebannws yn awdurdod lleol Castell-nedd Port Talbot.

Mae 106 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr gyda 18 yn y dosbarth cyn-feithrin yn rhan amser. Mae gan yr ysgol 4 dosbarth oed cymysg, dau yn y Cyfnod Sylfaen a dau yng nghyfnod allweddol 2. Yn ychwanegol at hyn, mae gan yr ysgol Uned Dysgu Ychwanegol (UDY) cyfrwng Saesneg i ddisgyblion o'r ardal ehangach sydd ag anghenion dwys.

Mae tua 11% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sy'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Mae gan tua thraean o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau lleol a chenedlaethol. Mae gan ychydig o'r disgyblion ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n cael gofal gan yr awdurdod lleol. Daw tua 12% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Mae'r pennaeth dros dro yn ei swydd ers Medi 2016. Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws yn 2016-2017 yw £4,718. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghastell- nedd Port Talbot yw £6,224 a'r lleiafswm yw £2,851. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Trebannws yn bedwerydd allan o'r 57 ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Phort Talbot o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd pwrpasol
- disgyblion o bob oed yn cofio dysgu blaenorol yn gyflym ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus
- bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn pryderu
- disgyblion yn mynegi barn yn dda am yr hyn sy'n digwydd yno
- y gymuned yn un ofalgar a chefnogol i'w disgyblion
- yr ethos yn un cartrefol a chynhwysol

Fodd bynnag:

- nid yw llawer y disgyblion o allu uwch yn cyflawni cystal ag y gallent
- ychydig iawn o'r disgyblion sy'n dangos mwynhad tuag at ddarllen ac sy'n trafod llyfrau yn hyderus
- nid yw'r cynllunio'n sicrhau bod yr ysgol yn bodloni gofynion y cwricwlwm yn llawn
- mae safon yr addysgu yn anghyson ar draws y dosbarthiadau

## Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn ddigonol oherwydd bod:

- gweledigaeth y pennaeth dros dro yn glir ac yn ffocysu ar les y disgyblion ac ar godi eu safonau
- y pennaeth wedi sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau, sydd wedi arwain at greu ethos o gydweithio agos
- yr ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles disgyblion
- arweinwyr a llywodraethwyr yn cadw rheolaeth gadarn ar adnoddau ariannol yr ysgol ac yn rhagfynegi anghenion gwariant y dyfodol yn dda

Fodd bynnag:

- nid yw rôl strategol y llywodraethwyr wedi datblygu'n llawn
- nid yw'r mentrau sydd newydd eu sefydlu na'r strwythurau staffio wedi cael effaith gadarnhaol eto ar godi safonau cyflawniad
- er bod gwelliannau diweddar iawn mewn agweddau o'r ddarpariaeth, ni fu digon o amser i fynd i'r afael â meysydd pwysig y mae angen eu gwella

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod disgyblion uwch eu gallu yn cyflawni hyd orau eu gallu

A2 Gwella medrau darllen disgyblion

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn cynllunio i fodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn

A4 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm

A5 Sicrhau gwell cysondeb yn ansawdd yr addysgu effeithiol

A6 Datblygu rôl strategol aelodau'r corff llywodraethol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

# Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth ddechrau'r ysgol, mae medrau sylfaenol rhan fwyaf y disgyblion yn cyfateb i'w hoed a'u gallu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae llawer yn gwneud cynnydd pwrpasol. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent.

Mae llawer o ddisgyblion yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd yn effeithiol ac yn eu cymhwyso'n fedrus mewn sefyllfaoedd newydd. Mae disgyblion o bob oed yn cofio dysgu blaenorol yn gyflym ac yn wynebu heriau newydd yn hyderus. Mae medrau meddwl rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n briodol.

O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar Cymraeg rhan fwyaf y disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn datblygu'n fuan. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r medrau ganddynt i siarad yn gynyddol gywir a hyderus, er eu bod yn tueddu i ddefnyddio geiriau Saesneg ar adegau. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn ymateb yn eiddgar i gwestiynau gan athrawon ac mae'r mwyafrif yng nghyfnod allweddol 2 yn cynnal sgyrsiau yn Saesneg ac yn y Gymraeg yn unol â'u hoed a'u gallu. Mewn Saesneg, mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn trafod eu dysgu'n ddeallus a gallant fynegi eu hunain yn effeithiol. Er bod ganddynt fedrau llafar cadarn yn y Gymraeg, mae tuedd i leiafrif o ddisgyblion siarad Saesneg yn aml mewn gwersi ac yn ystod amseroedd chwarae.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu strategaethau darllen ffonig addas ac yn eu defnyddio'n hyderus wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Er hyn, erbyn diwedd y cyfnod, y lleiafrif sy'n datblygu rhuglder a chywirdeb wrth ddarllen er bod y mwyafrif yn ailadrodd storïau yn lled gywir. Ychydig iawn o'r disgyblion sy'n trafod llyfrau yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen yn gywir ac yn meddu ar ddealltwriaeth addas o'r tesun. Maent yn trafod prif ddigwyddiadau a chymeriadau eu llyfrau yn briodol. Er hyn, dim ond ychydig o'r disgyblion hŷn sy'n dangos mwynhad wrth ddarllen ac yn medru ymhelaethu wrth drafod eu hoff lyfrau. Ychydig o ddisgyblion sy'n dangos dealltwriaeth effeithiol o uwch fedrau darllen wrth iddynt ymchwilio i rinweddau arteffactau o oes y Tuduriaid.

Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn dangos datblygiad parhaus o ran eu medrau ysgrifennu. Mae'r mwyafrif yn sillafu geiriau cyffredin yn gywir ac yn gwneud ymdrech dda i sillafu geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y cyfnod, gall llawer ddefnyddio ystod o ansoddeiriau perthnasol i greu effaith mewn darnau estynedig, er enghraifft i ailysgrifennu stori'r Pasg. Maent yn ysgrifennu'n briodol at amrywiaeth o ddibenion mewn brawddegau llawn, gan ddangos gafael pwrpasol ar atalnodi, er enghraifft wrth ysgrifennu newyddion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu annibynnol yn ddigon aml ym meysydd eraill y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Maent yn ystyried y gynulleidfa yn addas, gan ddewis geiriau pwrpasol ac iaith ddisgrifiadol wrth ysgrifennu. Maent yn cynnwys ffeithiau cywir i'w cynnwys yn eu darnau ysgrifennu, er enghraifft wrth ysgrifennu sgript am y cymeriad Branwen. Gall mwyafrif y disgyblion gychwyn brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd gan osod trefn geiriau, ymadroddion a chymalau priodol yn llwyddiannus i greu effaith. Maent yn defnyddio ystod gynyddol o atalnodi yn addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu'n briodol. Mae ffocws diweddar yr ysgol gyfan ar ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y safonau y mae disgyblion yn eu cyflawni. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro gallu mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu medrau rhifedd penodol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn adnabod, trefnu a defnyddio rhif yn briodol yn eu gweithgareddau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, maent yn cyfrifo faint o fwyd sydd ei angen ar wahanol anifeiliaid a faint mae'n costio. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn casglu data am eu hoff arch arwyr yn hyderus a'u harddangos ar ffurf graff bar. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o werth lle. Maent yn cyflwyno gwaith mathemateg ar lefel briodol yn unol â'u hoed a'u gallu. Erbyn diwedd y cyfnod allweddol, maent yn ysgrifennu a thrin rhifau hyd at chwe digid yn hyderus ac yn defnyddio nifer o strategaethau pen yn hyderus wrth luosi a rhannu rhifau cyfain a degolion. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i resymu nac wrth gasglu, cofnodi a dadansoddi data yn ddigon aml. Prin yw eu defnydd o'u medrau rhifedd ar draws meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Mae disgyblion yn gwneud defnydd addas o'u medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) i gefnogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau neu baent yn briodol er mwyn cyflwyno gwybodaeth. Mae'r mwyafrif yn dechrau rheoli tegan yn hyderus er mwyn dilyn llwybr penodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Maent yn cyflwyno eu gwaith yn greadigol ac yn creu rhaglenni syml ac yn ychwanegu sain yn hyderus. Mae llawer yn medru defnyddio meddalwedd ar lechi electronig i gefnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o ddisgyblion yn creu lluniau symudol trwy ddefnyddio delweddau yn brin. Ar draws yr ysgol, mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd.

Mae perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim wedi amrywio dros y pedair blynedd diwethaf ond maent bellach yn cymharu'n fwy ffafriol â disgyblion eraill. Yn gyffredinol, nid oes unrhyw wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn o gymharu â merched. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn tuag at gyflawni'r targedau sy'n cael eu gosod ar eu cyfer ac mae disgyblion yr uned dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y pedair blynedd diwethaf, o'i chymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliannau disgwyliedig ac uwch mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi ei gosod yn gyson is na'r canolrif.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig dros bedair blynedd yn amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf mewn Cymraeg. Mae perfformiad mewn mathemateg, Saesneg a gwyddoniaeth wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 25% isaf. Dros yr un cyfnod, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel uwch mewn Cymraeg yn ei gosod rhwng y 25% uchaf a'r 50% is. Mae perfformiad mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, yn gyffredinol, yn gyson is na'r cyfartaledd.

**Lles: Da**

Mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i fynd os ydynt yn pryderu. Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a chadw'n heini.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn mwynhau eu gwersi ac yn gynyddol hyderus wrth osod a monitro eu targedau eu hunain. Maent yn dechrau cyfrannu tuag at beth yr hoffent ei ddysgu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn ddigon clir ynglŷn â sut i wella eu gwaith. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn gwersi ac mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar y cyfan yn dda.

Mae gan nifer o ddisgyblion gyfrifoldebau ac maent yn cynrychioli llais y disgybl yn effeithiol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn casglu barn a sylwadau eu cyd-ddisgyblion ac maent yn falch o'u hymdrechion i wella'r profiadau iddynt yn ystod amseroedd chwarae. Mae grwpiau o ddysgwyr eraill, fel yr arweinwyr digidol, yn dechrau cefnogi medrau TGCh mwyafrif y disgyblion a sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar y we. Mae criw arall yn datblygu medrau entrepreneuraidd llwyddiannus drwy greu llyfr ryseitiau syml 'Bwydydd Iach Blasus', i'w hannog i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymrwymiad cadarnhaol i'w cymuned leol. Enghraifft dda o hyn yw rhan y mae'r ysgol yn ei chwarae yng ngwasanaeth blynyddol yr eglwys leol a gorymdaith y Pasg.

O gymharu ag ysgolion tebyg, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf dros y pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyfradd wedi gwella yn ddiweddar a bellach yn gosod yr ysgol yn uwch na'r canolrif. Mae bron pob disgybl yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu profiadau diddorol ac ysgogol ar gyfer ei disgyblion. Fodd bynnag, nid yw bob amser yn bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol nac egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn llawn. Nid yw'r cynlluniau hir dymor bob amser yn nodi'n ddigon clir sut mae'r profiadau dysgu mewn Saesneg a gwyddoniaeth yn adeiladu ar wybodaeth bresennol a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol. Mae cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion iau'r Cyfnod Sylfaen ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol, a cheir pwyslais pwrpasol ar ddysgu drwy brofiadau ymarferol yn yr awyr agored. Fodd bynnag, mae'r cydbwysedd rhwng tasgau sydd wedi'u harwain gan oedolion a'r rhai sy'n sicrhau ffocws penodol i herio'r disgyblion, yn llai effeithiol ar gyfer disgyblion hŷn y cyfnod.

Mae staff yn cynnwys elfennau o’r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol yn eu cynlluniau gwaith. Fodd bynnag, anghyson yw effaith hyn ar y cyfleoedd y mae’r disgyblion yn eu derbyn i ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn llawn ar draws ystod o bynciau. Mae athrawon yn cyflwyno ystod addas o brofiadau dysgu i bob disgybl, gyda medrau cymdeithasol a medrau bywyd yn ganolog i’r ddarpariaeth.

Mae’r gwibdeithiau pwrpasol a chlybiau allgyrsiol yn cyfoethogi profiadau’r disgyblion yn effeithiol, ac yn ehangu ar eu medrau corfforol yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn darparu ystod effeithiol o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o’u Cymreictod drwy weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol fel teithiau i’r ardal leol, neu wersylloedd yr Urdd yn Llangrannog a Chaerdydd. Mae’r criw Cymraeg Cŵl yn dechrau dylanwadu ar yr ethos Cymreig yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn hybu materion sy’n ymwneud â dinasyddiaeth fyd eang yn briodol, gan sicrhau bod disgyblion yn wybodus am nodweddion masnach deg a’i heffaith. Mae eu hymgyrch i godi arian ar gyfer nifer o elusennau yn cryfhau ymwybyddiaeth y disgyblion am dlodi a’r rheini sy’n llai ffodus na nhw. Mae’r pwyllgor eco yn fforwm defnyddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o bwysigrwydd arbed dŵr ac ynni a chompostio ffrwythau. Mae’r sioe ffasiynau sy’n defnyddio dillad wedi eu hailgylchu wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o ffyrdd y gallant fod yn fwy cynaliadwy.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith dda yn bodoli rhwng y disgyblion a’r staff ym mhob dosbarth. Yn y mwyafrif o’r dosbarthiadau, mae'r addysgu’n gadarn dda ac mae brwdfrydedd yr athrawon yn cyfrannu’n llwyddiannus tuag at ennyn diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae ganddynt ddisgwyliadau uchel a cheir nodau dysgu pendant i’w gwersi. Mae’r athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau sydd â lefel briodol o her i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion ac maent yn cynllunio ar gyfer datblygu eu medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl yn fedrus. Fodd bynnag, mae safon yr addysgu yn anghyson ar draws yr ysgol.

Yn y lleiafrif o’r dosbarthiadau, lle nad yw'r addysgu’n mor llwyddiannus, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o’r hyn y gall ddisgyblion ei gyflawni. Nid ydynt yn addasu’r tasgau yn ddigon effeithiol i herio pob disgybl ar lefel briodol, yn enwedig y mwy abl. Nid yw ychydig iawn o’r athrawon yn modelu iaith yn ddigon da i’w galluogi i ddatblygu iaith lafar Gymraeg y disgyblion yn ddigon effeithiol. Nid yw’r tasgau bob amser yn ennyn diddordeb pob disgybl. O ganlyniad, nid yw ychydig o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd yn y eu dysgu.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion. Mae hyn yn galluogi athrawon i osod targedau ar gyfer gwella a chynllunio ar eu cyfer. Mae athrawon yn dechrau asesu gwaith disgyblion yn rheolaidd. Fodd bynnag, mae anghysondebau yn asesiadau’r lefelau uwch ar ddiwedd y flwyddyn. Mae’r cyfleoedd i ddisgyblion asesu eu dysgu eu hunain a gwaith eu cyfoedion yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safon eu gwaith. Mae'r mwyafrif yn trafod eu targedau’n syml, ynghyd â’r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith. Mae athrawon yn rhoi adborth i ddisgyblion ar eu gwaith yn rheolaidd a lle gwelir yr arfer orau, mae’r sylwadau’n eu helpu i wella’u gwaith yn effeithiol.

Mae adroddiadau i rieni yn bwrpasol ac yn bodloni gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chefnogol i'w disgyblion. Mae staff yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach ac yn galluogi disgyblion i gadw'n heini. Mae'r ysgol wedi mabwysiadu gweithdrefnau cadarn i godi presenoldeb, sydd wedi arwain at welliant yn ddiweddar.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn briodol trwy gyfrwng themâu pwrpasol. Gwahoddir ymwelwyr i arwain yr addoli ac mae cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar werthoedd, straeon moesol a Beiblaidd sy'n cefnogi datblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau defnyddiol ag asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol sy'n cynnig gwybodaeth a chymorth proffesiynol yn rheolaidd i'r sawl sydd ei angen. Enghraifft dda o hyn yw'r cydweithio effeithiol sy'n bodoli rhwng seicolegydd addysgol a'r ysgol i ddarparu cefnogaeth i'r rhieni ar ymddygiad eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer nodi ag olrhain cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae staff yn nodi anghenion disgyblion yn gynnar ac yn rhoi strategaethau ymyrraeth cadarn ar waith. Mae'r rhain yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd da dros gyfnod. Mae cynlluniau addysg unigol yn cynnwys targedau clir sy'n mynd i'r afael ag anghenion y disgyblion yn effeithiol. Mae staff yn cynnwys y rhieni'n llawn wrth adolygu cynllun addysg eu plentyn. Mae'r gefnogaeth ar gyfer y disgyblion yn yr uned dysgu ychwanegol yn llwyddiannus.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos yr ysgol yn un cartrefol a chynhwysol. Mae'r staff yn hybu naws ofalgar a hapus, gan ddathlu amrywiaeth a gwerthfawrogi cyfraniad pob dysgwr. Prif nod yr ysgol yw rhoi'r profiadau gorau posibl i'r disgyblion i'w paratoi'n briodol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywyd. Mae pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae polisïau, cynlluniau a gweithdrefnau yn eu lle sy'n hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol yn llwyddiannus. Mae perthynas gefnogol a gofalgar iawn rhwng y disgyblion hŷn a'r disgyblion iau yn ystod amseroedd chwarae sy'n annog parch a gofal.

Mae'r staff yn gwneud defnydd priodol o'r gofod sydd ar gael ac mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau yn addas ac yn adlewyrchu gweithgareddau ehangach yr ysgol yn bwrpasol. Mae cyflenwad amrywiol o adnoddau o ansawdd da yn gweddu'n briodol i anghenion y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cael ei chynnal a chadw'n bwrpasol ac mae'r adeilad yn addas ar gyfer nifer y disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r defnydd a wneir o'r amgylchedd awyr agored i hyrwyddo dysgu'r disgyblion ar draws yr ysgol, ac nid yw'r safle allanol wedi ei ddatblygu'n briodol ar gyfer anghenion dysgu disgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth dros dro, gyda chefnogaeth a chyfraniad gwerthfawr y dirprwy dros dro a'r staff, yn gosod cyfeiriad strategol pwrpasol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Mae ei gweledigaeth yn glir ac yn ffocysu ar les ac ar godi safonau disgyblion. Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel am ddyfodol yr ysgol a dealltwriaeth gynyddol o'r cryfderau a meysydd i'w gwella. Mewn amser byr, mae hi wedi cyflwyno mentrau newydd sydd wedi dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth, er enghraifft drwy sefydlu sesiynau dadansoddi data ar gyfer arweinwyr pwnc a chyflwyno cynllun ysgrifennu newydd.

Mae'r pennaeth wedi sicrhau bod gan y staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau. Maent yn dechrau ffocysu ar faterion ysgol gyfan yn bwrpasol ac yn cyfrannu at benderfyniadau strategol. Mae hyn wedi arwain at greu ethos o gydweithio agos ymhlith y staff. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i weld llawn effaith y strwythur hwn ar safonau gwaith disgyblion a threfniadau'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol i'r athrawon. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn hyd yma wedi cael eu defnyddio'n ddigon effeithiol i fesur eu heffaith ar godi safonau. Mae cyfarfodydd staff diweddar yn ffocysu'n uniongyrchol ar godi safonau a gwneud cynnydd yn erbyn targedau'r cynllun gwella, er enghraifft cyfraniad y disgyblion i wella'u gwaith eu hunain.

Mae'r ysgol, ar y cyfan, yn gwneud cynnydd boddhaol wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae gan yr ysgol drefniadau penodol ac effeithiol i wella lles a chyflawniad y disgyblion mwy bregus. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud digon o gynnydd tuag at ymateb yn llawn i holl ofynion y Cyfnod Sylfaen.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i'r ysgol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o ddata perfformiad ynghyd â gwybodaeth gynyddol am safonau gwaith y disgyblion. Yn ddiweddar, maent wedi dechrau ymweld â'r ysgol i arsylwi gwersi a chraffu ar waith. Fodd bynnag, nid yw'r arfer hon wedi cael digon o amser eto i ymsefydlu na chael effaith ar ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae'r pennaeth yn dechrau datblygu prosesau pwrpasol i arfarnu'r ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu diweddaraf yn ffocysu'n effeithiol ar safonau ac yn adnabod nifer o gryfderau a meysydd i'w gwella yn glir. Dadansoddir data yn drwyadl ac ystyrir perfformiad y disgyblion mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill, yr awdurdod lleol ac yn genedlaethol. Trwy gynllunio gweithgareddau i fynd i'r afael ag ychydig o'r meysydd sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd angen eu gwella, mae arweinwyr yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar godi safonau. Er enghraifft, maent wedi gwella ansawdd ysgrifennu'r disgyblion a datblygu cysondeb yn sylwadau marcio'r athrawon. Mae arweinwyr yn dechrau darparu cyfleoedd priodol i staff a disgyblion gyfrannu eu barn yn y broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i'r llywodraethwyr a'r rhieni fynegi eu barn.

Mae'r cynllun gwella cyfredol yn cysylltu'n dda â chanfyddiadau'r adroddiad hunanarfarnu mewn perthynas â safonau. Mae gan y cynllun nifer o dargedau sydd â ffocws clir ar wella meysydd penodol fel codi safonau bechgyn a'r cyfleoedd i ddisgyblion wella'u gwaith eu hunain. Nodir meini prawf priodol, enw'r aelod staff sydd â chyfrifoldeb, costau ac amser gweithredu penodol ar gyfer pob targed.

Er bod gweithdrefnau priodol ar waith i adnabod y cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella, ynghyd â chynlluniau gwella addas, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y rhain ar safonau a lles disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ystod o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles disgyblion. Mae cymdeithas rhieni ac athrawon yr ysgol yn weithgar iawn ac yn codi arian yn rheolaidd. Mae'r arian yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol i brynu adnoddau i gyfoethogi'r profiadau a gynigir i ddisgyblion, er enghraifft i brynu caledwedd technoleg gwybodaeth ac i sicrhau cyfleoedd i bob disgybl fynd ar ymweliadau addysgol. Mae'r ysgol yn cynnal sesiynau defnyddiol i hysbysu'r rhieni am faterion cwricwlaidd fel dulliau gwahanol o ddysgu mathemateg. Mae'r rhain yn galluogi'r rhieni i gefnogi eu plant adref.

Mae'r ysgol wedi dechrau sefydlu partneriaeth lwyddiannus iawn gyda'r cylch meithrin cyfagos i sicrhau dilyniant a pharhad yn addysg gynnar y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau trosglwyddo effeithiol â'r ysgol uwchradd sy'n paratoi disgyblion Blwyddyn 6 yn llwyddiannus ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch i gyd-safoni a chymedroli asesiadau athrawon er mwyn sicrhau dilysrwydd yr asesiadau ar ddiwedd y ddau gyfnod. Mae hyn yn dechrau gwella dealltwriaeth yr athrawon o lefelu gwaith disgyblion.

Mae'r ysgol yn chwarae rhan briodol yn y gymuned leol ac mae'r cysylltiadau cadarn sy'n bodoli yn darparu profiadau buddiol i ddisgyblion. Mae swyddog cyswllt cymunedol yr heddlu yn arwain sesiynau ar e-ddiogelwch, seiber-fwlio a pheryglon camddefnyddio alcohol a chyffuriau, sy'n codi ymwybyddiaeth disgyblion o faterion lles. Mae'r cyfleoedd i ddisgyblion chwarae mewn timau pêl-droed a rygbi yn y canolfannau lleol yn ymestyn eu profiadau ffitrwydd yn llwyddiannus.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol dîm o athrawon a staff cymorth â chymwysterau addas i gyflwyno'r cwricwlwm yn briodol. Mae arweinwyr yn defnyddio staff yn effeithlon ac yn sicrhau y gwnânt ddefnydd pwrpasol o arbenigedd staff. Mae'r holl athrawon yn cael cyfnodau priodol i gynllunio, paratoi ac asesu. Mae arweinwyr yn rheoli'r adeilad, y safleoedd a'r adnoddau yn effeithiol.

Mae arweinwyr yn nodi cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ddatblygu eu medrau proffesiynol i wella eu harfer a bodloni nodau gwella'r ysgol. Er enghraifft, mae hyfforddiant diweddar y staff o ran galluogi disgyblion i ddefnyddio medrau TGCh ar

draws sawl agwedd ar eu gwaith yn dechrau cael effaith gadarnhaol mewn rhai meysydd. Mae staff yn cyfrannu'n briodol at rwydweithiau dysgu proffesiynol ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda. Yn ddiweddar, mae'r cyfleoedd hyn wedi arwain at wella medrau rhifedd disgyblion y Cyfnod Sylfaen.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn cadw rheolaeth gadarn ar adnoddau ariannol yr ysgol ac yn rhagfynegi anghenion gwariant y dyfodol yn dda. Lle y bo'n berthnasol, gwnânt ddefnydd priodol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion. O ganlyniad, gwna ran fwyaf y disgyblion sy'n cael eu targedu gynnydd da, er enghraifft trwy wella eu medrau ysgrifennu.

O ystyried y deilliannau a'r defnydd o'r cyllid, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6712208 - YGG Trebannws**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 118 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 18 | 9 | 15 | 13 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 77.8 | 77.8 | 73.3 | 61.5 |
| Chwartel meincnod | 3 | 4 | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 2 | * | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 0.0 | * | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | * | 0.0 | 0.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | * | 4 | 4 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 9 | 12 | 10 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 77.8 | 91.7 | 90.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 4 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 12.5 | 11.1 | 25.0 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 9 | 15 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 77.8 | 77.8 | 73.3 | 69.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 11.1 | 6.7 | 7.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 9 | 15 | 13 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 88.9 | 88.9 | 73.3 | 69.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 0.0 | 33.3 | 46.7 | 53.8 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6712208 - YGG Trebannws**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 118 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 14.3 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 13 | 17 | 8 | 23 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 46.2 | 58.8 | 62.5 | 65.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 17 | 8 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 46.2 | 58.8 | 75.0 | 65.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 29.4 | 37.5 | 17.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 7 | 12 | 8 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 71.4 | 83.3 | 62.5 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 42.9 | 25.0 | 37.5 | 20.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 2 | 3 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 17 | 8 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 46.2 | 58.8 | 75.0 | 65.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 15.4 | 23.5 | 50.0 | 30.4 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 | 4 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 13 | 17 | 8 | 23 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 46.2 | 58.8 | 75.0 | 65.2 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 23.1 | 17.6 | 37.5 | 26.1 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 4 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 43 | 42<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 43 | 40<br>93% | 3<br>7% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 43 | 42<br>98% | 1<br>2% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 43 | 41<br>95% | 2<br>5% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 43 | 42<br>98% | 1<br>2% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 43 | 43<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 43 | 41<br>95% | 2<br>5% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 90% | 10% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 43 | 38<br>88% | 5<br>12% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 43 | 26<br>60% | 17<br>40% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 43 | 36<br>84% | 7<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 23 | 12 | 9 | 1 | 1 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 52% | 39% | 4% | 4% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 23 | 15 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 65% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 23 | 19 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 23 | 13 | 7 | 2 | 1 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 30% | 9% | 4% | | |
| | | 61% | 35% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 23 | 13 | 9 | 1 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 39% | 4% | 0% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 23 | 12 | 8 | 3 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 52% | 35% | 13% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 1% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 23 | 13 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 57% | 35% | 9% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 23 | 12 | 4 | 6 | 1 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 52% | 17% | 26% | 4% | | |
| | | 48% | 43% | 7% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 23 | 13 | 8 | 0 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 57% | 35% | 0% | 4% | | |
| | | 59% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 23 | 13 | 7 | 2 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 57% | 30% | 9% | 0% | | |
| | | 59% | 38% | 3% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 23 | 15 | 7 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 65% | 30% | 4% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 23 | 12 | 7 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 52% | 30% | 13% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 5% | 2% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 23 | 11 | 7 | 5 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 48% | 30% | 22% | 0% | | |
| | | 48% | 41% | 9% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 23 | 15<br>65% | 5<br>22% | 3<br>13% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 23 | 13<br>57% | 8<br>35% | 0<br>0% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 23 | 12<br>52% | 7<br>30% | 3<br>13% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 57% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 10<br>45% | 3<br>14% | 3<br>14% | 0<br>0% | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 23 | 9<br>39% | 6<br>26% | 8<br>35% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 23 | 11<br>48% | 8<br>35% | 3<br>13% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 34% | 4% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Eleri Anwen Hurley | Arolygydd Cofnodol |
| David Kenneth Davies | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Peter John Leggett | Arolygydd Cymheiriaid |
| Rhian Evans | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.